# ADRODDIAD ARBENNIG

### ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# PROSIECT ISADEILEDD MAWR CYSYLLTIADAU FFERMYDD GWYNT GOGLEDD CYMRU

# YMGYNGHORIAD O DAN ADRAN 42 O DDEDDF CYNLLUNIO 2008

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio y cyflwynwyd adroddiad yn y Pwyllgor ym mis Ionawr mewn perthynas â'r Prosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru, sy'n brosiect seilwaith o bwys cenedlaethol sy'n gofyn caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Disgwylir i gais am ganiatâd datblygu gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio yn hwyr yn 2014.

1.2 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol ar y prosiect yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Cynllunio 2008.

1.3 Gofynnir am benderfyniad ar y dyraniad adnoddau i gael ei glustnodi i ymateb i'r prosiect hwn yng ngoleuni newidiadau amgylchiadol ers mis Ionawr, ac ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau i Swyddogion gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r prosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru yn rhan o gynllun ehangach i gysylltu pedair fferm wynt arfaethedig yn Ardal Chwilio Strategol Coedwig Clocaenog (SSA) i is-orsaf bresennol yn Llanelwy. Scottish Power Manweb (SPM), sy'n berchen ar y drwydded dosbarthu trydan ar gyfer Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd a Chanolbarth Cymru, yw'r ymgeisydd.

2.2 Mae'r prosiect yn cynnwys llinell uwchben newydd 132cilofolt (cF) tua 17 cilomedr o hyd o fewn coridor Aliniad Llwybr tua 100m o led, ynghyd â gwaith ategol. Mae'r llinell uwchben 132cF arfaethedig yn rhedeg o ardal Coedwig Clocaenog yn Sir Ddinbych i bolyn terfynell i'r de o Ffordd Glascoed, B5381, Cefn Meiriadog. Mae'r coridor aliniad llwybr yn croesi drwy Sir Ddinbych a Chonwy. Mae coridor y llwybr yn cael ei ddangos ar **Gynllun 1** yng nghefn yr adroddiad hwn.

2.3 Bydd y cynllun ehangach a'r prosiect angen caniatâd gwahanol; mae'r prif ganiatâd wedi'u nodi isod:

2.3.1 **'Y Prosiect':** Bydd angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer y llinellau uwchben 132cF newydd ynghyd â mynedfeydd gofynnol, ardaloedd storio adeiladu a gwaith hanfodol arall. Yn unol â'r Ddeddf Cynllunio, bydd angen i'r ymgeisydd:

- Gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol ar 'y prosiect' gydag ymgyngoreion statudol a'r cyhoedd; mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymgynghorai statudol.
- Gyflwyno cais am ganiatâd datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio, a fydd yn archwilio'r cais ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Unwaith y bydd y cais wedi cael ei dderbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio, bydd y Cyngor yn cael gwahoddiad i gyflwyno 'Adroddiad Effaith Leol', sylwadau ysgrifenedig ac i gymryd rhan yn y broses archwilio. Sylwer nad yw hyn yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor, felly nid yw'n ofynnol i'r Cyngor yn ôl y gyfraith i gymryd rhan yn y broses archwilio.

2.3.2 **Y 'cynllun ehangach':** Yn ogystal â'r angen am Orchymyn Caniatâd Datblygu, bydd y cynllun ehangach hefyd angen:

- Caniatâd cynllunio o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer is-orsaf casglwr newydd yn ardal Coedwig Clocaenog. Felly, bydd angen cyflwyno cais cynllunio dilynol i Gyngor Sir Ddinbych.
- Ceblau tanddaearol newydd i gysylltu'r polyn Terfynell i'r is-orsaf bresennol yn Llanelwy, sydd

yn ddatblygiad a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1999.

**3. YMGYNGHORI CYN-CAIS AR Y 'PROSIECT'**

3.1 Mae SPM wedi cyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol (SoCC) sy'n nodi'r trefniadau ymgynghori ar gyfer yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol ar y prosiect llinellau uwchben, yn rhedeg o 20 Mawrth i 18 Mai 2014. At ddibenion yr ymgynghoriad cyn-cais, mae SPM wedi diffinio parth ymgynghori ddaearyddol sy'n ymestyn am o leiaf 2 cilomedr bob ochr i'r aliniad llwybr, ac maent wedi ymrwymo i ymgynghori â'r holl bobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn, neu fel arall sy’n defnyddio’r ardal hon, yn ogystal ag ymgynghori â phobl sydd wedi mynegi diddordeb yn y Prosiect o'r blaen. Mae aliniad y llwybr ei hun yn croesi drwy Sir Ddinbych a Chonwy ac mae'r parth ymgynghori yn cael ei ddangos ar **Gynllun 2** yng nghefn yr adroddiad.

3.2 Mae’r dogfennau ymgynghori’n cynnwys:

- Newyddlen prosiect i hyrwyddo'r ymgynghoriad a'r prosiect.
- Adroddiad Trosolwg annhechnegol o'r prosiect (gan gynnwys y crynodeb annhechnegol o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol).
- Cynlluniau manwl.
- Adroddiad Ymgynghori Interim.
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEI) yn cynnwys crynodeb annhechnegol.
- Adroddiad Dewisiadau Strategol.

3.3 Mae copi o'r Adroddiad Trosolwg annhechnegol ynghlwm fel atodiad yng nghefn yr adroddiad.

3.4 Mae'r prosiect yn cynnwys cynigion ar gyfer cysylltiad llinell uwchben 132cF newydd, ynghyd â mynedfeydd gofynnol, ardaloedd storio adeiladu a gwaith hanfodol arall.

3.5 Fel rhan o'r ymgynghoriad cyn-cais, mae SPM yn gwahodd sylwadau ar:

- Feysydd o fewn Aliniad(au) Llwybr Arfaethedig Llinell Uwchben 132cF na fyddai'n addas ar gyfer lleoli polyn neu linell uwchben.
- Y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol i ddeall effeithiau amgylcheddol y Prosiect.
- Y ddau aliniad llwybr ger Henllan.
- Elfennau eraill o’r Prosiect gan gynnwys mesurau i leihau effaith y Llinell Uwchben 132cF.

3.6 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyn-gais, mae cais DCO yn debygol o gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio ym mis Medi 2014 ar gyfer aliniad llwybr wedi’i ddiweddaru, fydd yn cael ei mireinio yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chanfyddiadau'r Asesiad Effaith Amgylcheddol.

3.5 Mae'r prosiect wedi cael ei ddatblygu er mwyn osgoi neu leihau effeithiau amgylcheddol posibl cyn belled ag y bo'n ymarferol. Bydd safle’r llinell a’r polyn terfynol yn cael ei lleoli o fewn aliniad y llwybr. Mae safleoedd llinell a pholyn dangosol wedi'u nodi at ddibenion cynnal asesiadau a pharatoi delweddau dangosol. Mae safle’r llinell a pholyn dangosol yn rhedeg i lawr canol yr aliniad llwybr arfaethedig.

3.6 Gall llinellau uwchben 132cF gael eu hadeiladu ar dyrau dur (peilonau), polion dur neu bolion pren (naill ai dwbl neu sengl). Mae deunyddiau'r ymgynghoriad yn cadarnhau nad oes angen unrhyw dyrau dur na pholion dur.

3.7 Mae'r llinell uwchben arfaethedig yn ddyluniad polyn pren dwbl, sy'n tueddu i fod yn 15m o uchder ac yn cael eu gwasgaru hyd at 100m ar wahân. Fodd bynnag, gall yr uchder a’r rhychwant gael ei

ymestyn neu ei leihau yn ôl yr angen i fodloni gofynion clirio statudol neu i fynd i'r afael â ffactorau tir ar oleddf. Mae'r polion yn cario tri chebl gyda gwifren ddaearu ychwanegol ac mae’r dargludyddion yn cael eu cefnogi ar strwythur dur sy’n eistedd ar ben y polion pren dwbl.

3.8 Mae nifer o astudiaethau ar y gweill i weld a fyddai dyluniad polyn pren sengl ysgafnach yn addas a gall ceblau tanddaearol hefyd fod yn briodol i ddatrys problemau technegol neu mewn ardaloedd lle mae’r sensitifrwydd gweledol mwyaf. Fodd bynnag, at ddibenion yr ymgynghoriad, mae’r asesiadau wedi'u seilio ar bolion pren dwbl fel darlun 'achos gwaethaf'. Dylid nodi nad yw'r cynllun polyn pren yn amodol ar yr ymgynghoriad; bydd hwn yn cael ei ddewis yn seiliedig ar ymarferoldeb technegol.

3.9 Mae aliniad y llwybr wedi ei rannu’n bedair adran sy'n cael eu dangos ar **Gynllun 1.** Mae Adran 3 (Eriviat i Blas Bwcle) yn cynnig dau aliniad gwahanol, sy'n cael eu dangos yn fwy manwl ar **Gynllun 3** ac fe'u crynhoir isod:

- Mae’r dewis cyntaf yn troi ychydig i'r gogledd-orllewin ar hyd llawr y dyffryn i'r gorllewin o Henllan o fewn y dirwedd fugeiliol ar raddfa fach i ganolig, gan groesi ffyrdd bychain, cyrsiau dŵr a derbynyddion preswyl. Mae'r caeau yn cael eu ffinio gan wrychoedd â choed aeddfed ac ardaloedd o goetir collddail yn bennaf sy'n cynyddu ar hyd llednentydd yr Elwy i'r gorllewin o Henllan.

- Mae’r ail ddewis hefyd yn rhedeg yn fras i'r gogledd-orllewin i basio i'r gorllewin o Ferain. Fodd bynnag, mae'r aliniad yn rhedeg ar draws tir ychydig yn uwch i'r gorllewin, yn bellach o Henllan, gan groesi tir fferm tonnog gyda gwrychoedd wedi’u cadw'n dda a choed aeddfed. Mae’r aliniad yn croesi dau ddyffryn afon coediog ac yn pasio i'r dwyrain o Goed Hafod.

3.10 Mae dewis dau wedi cael ei gynnig o ganlyniad i adborth a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cymunedol anstatudol blaenorol lle'r oedd nifer o drigolion Henllan wedi gofyn i’r aliniad llwybr gael ei hail-leoli ymhellach i ffwrdd o’r pentref.

3.11 Er bod dewis un a dewis dau o fewn ffiniau gweinyddol Conwy, efallai y bydd y Cyngor yn dymuno gwneud sylwadau ar y dewisiadau hyn, yn ogystal â rhoi sylwadau ar y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol ac addasrwydd y llwybr i ddarparu ar gyfer llinellau uwchben a pholion pren.

**4. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

4.1 Fel y gŵyr Aelodau, nid yw’r Cyngor yn derbyn ffi cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol ac roedd yr adroddiad i bwyllgor mis Ionawr yn nodi'r goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, ac yn amlinellu opsiynau cyllido posibl.

4.2 Ym mhwyllgor mis Ionawr penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor barhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ymgysylltu yn y broses gynllunio ar gyfer y prosiect hwn ac ar gyfer:

- Gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru
- Gofyn i Scottish Power Manweb gyfrannu.
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor Sir lle bo hynny’n briodol

4.3 Fodd bynnag, ers mis Ionawr, bu cyfres o newidiadau amgylchiadol sy'n cael effaith uniongyrchol ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor i ymateb i'r prosiect hwn, gan gynnwys:

- <u>Cyllid Llywodraeth Cymru:</u> Fel rhan o ddiwygio cynllunio Cymru, bydd ffrydiau ariannu cynllunio Llywodraeth Cymru yn cael ei ail-gyfeirio i ariannu darpariaethau o'r fath fel ffurfio gwasanaeth cynghori a gwella cynllunio cenedlaethol. O ganlyniad, ni fydd ffrydiau ariannu o'r fath ar gael yn uniongyrchol i awdurdodau cynllunio lleol mwyach, felly nid oes lle i gostau gael eu hadennill gan Lywodraeth Cymru.

- <u>Cytundeb Perfformiad Cynllunio:</u> Mae swyddogion wedi cysylltu â Scottish Power Manweb mewn perthynas ag ymrwymo i Gytundeb Perfformiad Cynllunio (CPC). Nid yw Scottish Power Manweb wedi ymrwymo i CPA ar gyfer unrhyw brosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol eraill, felly byddai'n newid sylweddol i'r cwmni wneud hyn ar gyfer y prosiect

Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru; tra bydd swyddogion yn parhau i geisio CPC ar gyfer y prosiect hwn, nid yw CPC wedi'i sicrhau at ddibenion yr ymgynghoriad presennol.

- Cydweithio: Mae'r prosiect yn effeithio ar Sir Ddinbych a Chonwy. Bydd swyddogion yn ymdrechu i gydweithio gyda Chonwy lle byddai'n galluogi i adnoddau gael eu symleiddio, fodd bynnag, dylai Aelodau nodi bod Swyddog Tirwedd Conwy wedi gadael yr awdurdod ym mis Mawrth 2014, ac nid yw Conwy wedi gwneud penderfyniad ynghylch a fydd y swydd yn cael ei llenwi; felly mae'r ddau Gyngor heb unrhyw arbenigedd tirwedd mewnol ar hyn o bryd.

- Cyllideb y Cyngor Cymeradwyodd y Cyngor llawn gyllideb 2014/15 y Cyngor ar 27 Ionawr 2014. Oherwydd Setliad Terfynol Llywodraeth Leol, bydd yn rhaid i'r Cyngor ganfod tua £8.5miliwn o arbedion ar gyfer 2014/15.

- Papur gan y Prif Weithredwr 'Hogi'r Ddeddf' (Chwefror 2014). Mae'r papur hwn yn nodi amcan cyffredinol y Cyngor hwn ar gyfer gweddill y weinyddiaeth hon, sef *"i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol, gwella gofal cwsmer a chynnal gwasanaethau sy'n flaenoriaeth wrth reoli toriadau ariannol sylweddol ac o bosibl yn dechrau rheoli'r pontio o Sir Ddinbych i Gyngor Sir Ddinbych/Conwy wedi'u cyfuno*." Mae'r papur yn mynd ymlaen i bwysleisio'n glir yr angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol ac i falansau'r cyngor gael eu defnyddio mewn ffordd a gynlluniwyd yn ofalus.

4.4 Mae'r Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rhagarweiniol (Adroddiad EARh) wedi cael ei hysbysu gan gyfres o asesiadau ac astudiaethau cynhwysfawr, ac yn cyd-fynd â chyfres o ddelweddau o safbwyntiau cynrychioliadol o fewn Sir Ddinbych a Chonwy. O gofio bod y seilwaith arfaethedig nawr yn cael ei gyfyngu i bolion pren dwbl 15m ac nid strwythurau peilon mawr, at ddibenion yr ymgynghoriad cyn-cais, mae swyddogion yn ystyried y gall y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol gael ei harfarnu'n rhesymol gan swyddogion cynllunio a thechnegol ac nid ydynt yn ystyried bod yna gyfiawnhad digonol dros dynnu balans y cyngor i lawr ar gyfer caffael ymgynghorwyr tirwedd ac amgylcheddol i weithredu ar ran y Cyngor ar hyn o bryd.

4.5 Felly mae swyddogion yn cynnig bod adnoddau mewnol yn unig sy'n bodoli eisoes yn cael eu defnyddio i alluogi'r Cyngor i ymateb i'r ymgynghoriad cyn gwneud cais.

4.6 Ar hyn o bryd, rhagwelir na fydd ymateb ymgynghorol y Cyngor yn ffurfio barn ar rinweddau cynllunio'r datblygiad, ond yn hytrach ar ffurf adroddiad arsylwadau sy'n cyfeirio at y penodau perthnasol yn yr Adroddiad PEI a dogfennau ymgynghori eraill. Felly, bydd sylwadau'n cael eu darparu ar sail heb ragfarn, ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud sylwadau manwl pellach naill ai i gefnogi neu i wrthwynebu'r prosiect pan fydd cais am ganiatâd datblygu'n cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio.

4.7 Mae ymgynghori mewnol ar y prosiect wedi dechrau. Oherwydd trefn pwyllgorau ac i wneud y gorau o'r amser sydd ar gael i swyddogion cynllunio a thechnegol archwilio'r deunyddiau ymgynghori, mae Swyddogion yn gofyn i'r Aelodau gytuno bod Swyddogion yn cyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyn gwneud cais ar ran y Cyngor ar ôl derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad mewnol, mewn ymgynghoriad â'r Cynghorwyr Ward yr effeithir arnynt, a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

**5. ARGYMHELLION**

5.1 Aelodau'n cytuno i:

- Adnoddau mewnol yn unig i gael eu defnyddio i asesu'r dogfennau ymgynghori cyn-cais.

- Swyddogion i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad i Scottish Power Manweb ar ran y Cyngor cyn diwedd y cyfnod ymgynghori, mewn ymgynghoriad â'r Cynghorwyr Ward yr effeithir arnynt a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

**GRAHAM H. BOASE PENNAETH GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**Cynllun 1:** Coridor Llwybr

**Cynllun 2:** Parth Ymgynghori

**Cynllun 3:** Cynllun Adran 3

**Atodiad:** Adroddiad Trosolwg Annhechnegol Ymgynghori